Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Arbennig Pen Coch
# Rhodfa Tywysog Cymru
# Y Fflint
# Sir y Fflint
# CH6 5NF

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig gydaddysgol ar gyfer hyd at 104 o ddisgyblion rhwng 2 ac 11 oed yw Ysgol Pen Coch. Agorwyd yr ysgol ym Medi 2009 yn dilyn ad-drefnu darpariaeth addysgol arbennig yn Sir y Fflint. Mae’r ysgol yn gweithredu ar ddau safle. Mae’r brif ysgol, a adeiladwyd yn bwrpasol, yn y Fflint ac mae canolfan asesu yn yr Wyddgrug. Mae’r ddwy adran yn rhannu safleoedd gydag ysgolion cynradd prif ffrwd.

Mae gan ddisgyblion yn Ysgol Pen Coch ystod eang o anghenion addysgol arbennig. Mae’r rhain yn cynnwys anawsterau dysgu cymedrol, difrifol, dwys a lluosog, penodol ac anhwylderau’r sbectrwm awtistig. Mae gan rai disgyblion nam ychwanegol ar y synhwyrau ac anawsterau cyfathrebu. Mae gan leiafrif o ddisgyblion yn y ganolfan asesu ymddygiad heriol hefyd.

Yn y brif ysgol, mae’r dosbarthiadau yn fach gyda rhwng chwech a deg disgybl yn gweithio gydag athro ac o leiaf ddau gynhorthwy-ydd addysgu. Gall disgyblion sydd ag ystod fwy cymhleth o anghenion dysgu dderbyn cymorth ychwanegol. Mae’r ysgol wedi’i rhannu’n adrannau Sylfaen a Chynradd.

Mae Canolfan Asesu Ysgol Pen Coch ar gyfer disgyblion rhwng dwy a saith oed y mae angen iddynt gael eu hasesu cyn eu lleoli. Gall y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn fod yn rhan-amser lle bo’n briodol.

Saesneg yw prif iaith bron pob un o’r disgyblion. Nid yw unrhyw un o’r disgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith gartref. Mae chwe disgybl o grwpiau ethnig lleiafrifol. Caiff dau ddisgybl gymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan tua 25% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef ychydig llai nag 20%.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn byw yn Sir y Fflint. Mae pum disgybl yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Pen Coch yn ysgol dda oherwydd:

- bod gan arweinwyr a rheolwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n effeithiol;
- bod disgyblion yn cyflawni safonau da yn eu dysgu ac mewn medrau dysgu allweddol;
- bod yr addysgu yn dda iawn ar draws yr ysgol, mae staff yn gweithio'n dda fel tîm ac mae amgylchedd cadarnhaol ar gyfer dysgu;
- bod y gwaith wedi'i gynllunio'n ofalus iawn i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion i sicrhau eu bod yn datblygu medrau allweddol; a
- bod ymrwymiad cryf iawn i welliant parhaus yn yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn Ysgol Pen Coch yn rhagorol oherwydd:

- bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac mae wedi creu diwylliant effeithiol o gyfrifoldeb ar y cyd;
- bod gweithdrefnau asesu a chofnodi o ansawdd uchel ar flaen y gad o ran arfer yn y sector;
- bod gweithdrefnau effeithiol iawn i nodi a mynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer datblygiad staff;
- bod staff yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion; a
- bod hunanarfarnu wedi'i ymgorffori'n dda ac yn galluogi'r ysgol i nodi meysydd clir a phriodol ar gyfer gwella.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 barhau i adeiladu ar y cynnydd da a wnaed gan yr ysgol ers iddi agor;

A2 datblygu rôl y corff llywodraethol ymhellach i sicrhau ei fod yn darparu lefelau priodol o her i'r ysgol; a

A3 chryfhau'r cysylltiadau â'r gymuned leol ymhellach er mwyn cynyddu ystod y cyfleoedd dysgu ar gyfer y disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Pen Coch yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd yr ysgol hefyd yn cael ei gwahodd i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cyflawni safonau da mewn perthynas â'u hanghenion dysgu a'u galluoedd. Caiff rhaglenni eu teilwra'n unigol ac nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni â chyfartaleddau cenedlaethol neu ddadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros gyfnod.

Mae pob un o'r disgyblion yn cyflawni'r targedau dysgu cytûn a nodwyd yn eu cynlluniau addysg unigol. Oherwydd eu hanghenion cymhleth, mae disgyblion yn cymryd camau bach iawn wrth wneud cynnydd. Caiff y camau hyn eu cofnodi a'u dadansoddi'n ofalus iawn er mwyn i staff allu rhoi cymorth ychwanegol i grwpiau ac unigolion lle bydd angen. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Nid oes patrwm arwyddocaol ar gyfer perfformiad bechgyn a merched. Mae disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a'r rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol yn gwneud cynnydd da.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrando'n ofalus ac yn dilyn cyfarwyddiadau. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau ac yn myfyrio ar ba mor dda y maent wedi gweithio yn ystod eu gwersi. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn galw i gof eu gwersi blaenorol yn dda.

Mae disgyblion llai abl yn datblygu'r medrau cyfathrebu sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau a mynegi eu hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn dysgu gwneud cyswllt llygad, aros eu tro, rhannu a gweithio ochr yn ochr â disgyblion eraill. Mae rhai disgyblion yn defnyddio arwyddion yn hyderus ac yn ymestyn eu hatebion heb gael eu hannog. Mae disgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda i gymryd rhan yn eu gwersi, gan gynnwys switshis a byrddau gwyn rhyngweithiol. Mae disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn gwneud cynnydd da trwy gamau'r System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau. Maent yn defnyddio lluniau'n dda i'w helpu i ddeall beth fydd yn digwydd nesaf a dewis ble byddant yn chwarae ac yn gweithio.

Mae disgyblion mwy abl yn datblygu arferion gweithio priodol ac yn dod yn fwy annibynnol. Maent yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn defnyddio geiriau a brawddegau byrion yn dda i ddisgrifio'r gweithgareddau y maent yn gweithio arnynt. Mae rhai disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol. Maent yn ymarfer eu medrau rhifedd datblygol trwy roi rhifau yn eu trefn, cofnodi data, defnyddio graffiau a chyfrif mewn ystod o sefyllfaoedd. Gwnânt ddefnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddrafftio a chyflwyno eu gwaith. Lle bo'n briodol, mae'r disgyblion hyn yn ymuno mewn ystod o wersi prif ffrwd mewn ysgolion cynradd eraill. O ganlyniad i'r cyfleoedd integreiddio gwerthfawr hyn, mae disgyblion yn ehangu eu gorwelion, yn cynyddu eu hyder ac yn ymestyn eu gwybodaeth.

Mae pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Cymraeg mewn perthynas â'u hanghenion a'u cefndiroedd ieithyddol. Maent yn deall ansoddeiriau Cymraeg sy'n disgrifio eu cynnydd ac maent yn eu defnyddio'n briodol.

**Lles: Rhagorol**

Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn mwynhau dod i'r ysgol ac maent yn mynychu'n rheolaidd oni bai eu bod yn cael cyfnodau o salwch oherwydd eu cyflyrau meddygol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt gan y staff. Ymgynghorir â disgyblion yn llawn ynglŷn â'u targedau ar gyfer dysgu ac fe gânt eu hannog i weithio'n annibynnol lle bynnag y bo modd. Maent yn myfyrio'n rheolaidd ar ba mor dda y maent wedi gweithio a'r hyn y gallant ei wneud i wella.

Mae disgyblion yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fagu perthynas dda ag eraill. Maent yn gwrtais, yn ystyriol ac yn gofalu am ei gilydd. Maent yn gofalu am offer ac yn helpu cadw eu hystafelloedd dosbarth yn daclus. Yn ystod amser cylch, mae disgyblion yn myfyrio ar, ac yn trafod pa mor dda y maent wedi gweithio a chwarae gyda'i gilydd a ble gallant wneud gwelliannau.

Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir ynglŷn â sut i gadw eu hunain yn iach ac am bwysigrwydd ymarfer corff lle bo modd.

Mae disgyblion yn gwybod beth i'w wneud os cânt eu bwlio. Maent wedi cael hyfforddiant gwerthfawr mewn sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn deall beth a ddisgwylir ohonynt a sut i uniaethu ag eraill. Pan fydd ymddygiad disgyblion yn heriol iawn, mae staff yn eu helpu i ddeall a rheoli eu teimladau a pheidio â gwylltio. Mae disgyblion yn mwynhau sesiynau gyda phypedau a chael golwg ddefnyddiol ar eu teimladau a sut i'w rheoli. O'r gwaith hwn, maent yn dysgu sut i ymlacio pan fyddant yn teimlo'n flin neu'n rhwystredig. Mae gan ddisgyblion ar gyngor yr ysgol rôl lawn yng ngwaith yr ysgol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod syniadau disgyblion ar gyfer gwella gwaith yr ysgol a'i chyfleusterau. Maent yn ennill dealltwriaeth dda o sut i ysgrifennu agendâu a chynnal cyfarfodydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang ac ysgogol o brofiadau dysgu. Mae athrawon yn cynllunio eu gwersi'n ofalus iawn i fodloni anghenion dysgu pob un o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau dysgu allweddol yn dda iawn. Mae ystod o dechnegau cyfathrebu, fel arwyddion a chyfnewid lluniau, yn galluogi pob un o'r disgyblion i ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn unol â'u hanghenion a'u gallu. Mae darpariaeth wedi'i chynllunio'n dda i ddisgyblion ddatblygu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a gynllunnir i wella eu hunan-barch, ehangu eu profiad a datblygu eu medrau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gweithio mewn coedwig, beicio, marchogaeth a sesiynau dawns.

Mae’r ysgol hefyd yn darparu ystod o therapïau fel hydrotherapi, tylino a dawns. Cynllunnir y therapïau hyn i hyrwyddo lles emosiynol disgyblion a gwneud iddynt ymlacio fel eu bod yn barod ar gyfer dysgu.

Mae clybiau gwyliau Pasg a haf a’r clwb brecwast a fynychir gan nifer dda o ddisgyblion yn cyfoethogi eu profiadau dysgu.

Mae staff yn darparu cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg a dysgu am ddiwylliant Cymru. Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o ddiwylliannau eraill trwy waith testun wedi’i gynllunio’n dda. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn mwynhau dysgu am ddiwylliant Affrica trwy gerddoriaeth a chelf.

Mae cyngor yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy trwy drefnu ailgylchu o gwmpas yr ysgol ac annog cadwraeth ynni.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae cynllunio’r athrawon wedi’i seilio ar asesiad gofalus a chywir o anghenion a galluoedd disgyblion. Maent yn defnyddio’r asesiad hwn i lywio cynlluniau addysg unigol cynhwysfawr a ffocysedig. Mae gan bob un o’r staff wybodaeth dda a chyfoes am ddulliau addysgu effeithiol ac maent yn defnyddio’r rhain yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio’n dda iawn fel tîm. Mae gan bob un o’r staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu ac ymddygiad disgyblion yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Caiff ymddygiad y disgyblion ei reoli mewn modd sensitif ac effeithiol gan bob un o’r staff.

Mae pob un o’r staff yn gweithio’n dda iawn gyda’i gilydd i gynllunio a chyflwyno gwersi mewn amgylchedd cefnogol iawn ond pwrpasol. Maent yn defnyddio ystod helaeth o adnoddau priodol yn dda iawn. Mae pob un o’r staff yn defnyddio ystod eang o dechnegau cyfathrebu, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, arwyddion a symbolau, i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion.

Mae’r systemau ar gyfer olrhain, dadansoddi a chofnodi gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn dda iawn. Mae’r ysgol yn defnyddio ystod eang o offer asesu sy’n briodol i anghenion a galluoedd y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau i gofnodi cynnydd disgyblion, fel ffotograffau o’u cyflawniadau. O ganlyniad, mae cofnodion o gyflawniadau disgyblion yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Mae hyn yn galluogi’r ysgol i ddarparu cymorth wedi’i dargedu’n dda ar gyfer pob un o’r disgyblion.

Mae’r gweithdrefnau asesu a chofnodi o ansawdd uchel hyn ar flaen y gad o ran arfer yn y sector ac yn gwneud yn siŵr bod athrawon a staff cymorth yn cofnodi cynnydd disgyblion yn gywir ac yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer dysgu’r disgyblion yn y dyfodol. Mae’r prosesau hyn yn cael effaith gadarnhaol yn gynyddol ar y safonau a gyflawnir gan bob un o’r disgyblion, ac maent yn arwain at lefelau cyflawniad uwch.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud. Mae pob un o'r disgyblion yn mynd â chofnodion cynnydd adref yn rheolaidd fel bod rhieni a gofalwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae trefniadau effeithiol iawn i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol sy'n darparu gofal, arweiniad a chymorth o ansawdd da ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud defnydd da iawn o arbenigedd mewnol i helpu athrawon i ennyn diddordeb eu disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan y cydlynydd cyfathrebu a'r technegydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r prosesau ar gyfer nodi, cefnogi a monitro anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn esiampl dda. Mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau dysgu priodol sy'n hysbys ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol iawn gan bob un o'r staff. Caiff targedau eu hadolygu yn rheolaidd.

Mae cynlluniau ymddygiad unigol cywrain a gwerthfawr ar gyfer disgyblion nad ydynt yn ymddwyn yn dda. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu strategaethau effeithiol ar gyfer staff i reoli ymddygiad a sicrhau bod y disgyblion yn gweithio'n ddiwyd ac maent yn cysylltu'n dda iawn â datblygu medrau personol y disgyblion.

Mae disgyblion ag anghenion cymhleth yn elwa ar gynlluniau gofal cynhwysfawr a chymorth â'u hanghenion symudedd a synhwyraidd.

Mewn addysg bersonol a chymdeithasol, caiff y disgyblion ystod o gyfleoedd i'w helpu i ddeall sut maent yn teimlo. Mae staff yn cynllunio'n dda i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Maent yn gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn cael amser i fyfyrio a bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Caiff pob un o'r disgyblion eu hannog i wybod y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir. Cânt eu hannog i drafod a chytuno ar reolau'r ysgol a'r gymuned.

Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol priodol. Cânt eu hannog i fwyta bwyd iach a chânt gymorth meddygol da iawn pan fydd ei angen.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi datblygu ethos cadarnhaol sy'n croesawu ac yn darparu ar gyfer disgyblion ac ymwelwyr o bob cefndir a gallu. Mae'n gymuned gynhwysol sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal i'r cwricwlwm a gweithgareddau dysgu ehangach.

Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddelio ag unrhyw fath o wahaniaethu. Mae pob un o'r staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr ysgol yn amgylchedd croesawgar a diogel.

Mae safon yr adeiladau yn uchel iawn, ac fe gânt eu cynnal yn dda. Mae ansawdd yr adnoddau yn dda, ac fe gânt eu gweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Cânt eu defnyddio'n effeithiol i wella'r safonau a gyflawnir gan bob un o'r disgyblion. Mae arddangosiadau ar draws yr ysgol yn ddeniadol ac yn adlewyrchu cyflawniadau disgyblion o bob gallu.

Mae'r amgylchedd awyr agored yn darparu meysydd ysgogol a heriol ar gyfer dysgu a hamdden.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r uwch staff wedi sefydlu gweledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol, sy'n cael ei rhannu gan bawb. Maent wedi rhoi polisïau a chynlluniau cynhwysfawr ar waith, mewn cyfnod cymharol fyr, sy'n canolbwyntio'n dda ar fodloni'r ystod eang o anghenion y disgyblion.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau'r awdurdod lleol ar gyfer ysgolion arbennig, agenda'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a menter Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig.

Mae uwch arweinwyr a rheolwyr canol yn gweithio'n gyson ar draws yr ysgol i gefnogi a herio cydweithwyr ac maent yn cyfleu disgwyliadau uchel iawn i'r rhai y maent yn eu rheoli. Maent wedi creu ethos ysgol lle mae staff, disgyblion ac eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd, yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r dull arweinyddiaeth dosbarthedig tra-ystyriol yn symud yr ysgol ymlaen yn effeithiol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar dargedau gwella'r ysgol ac yn arwain at bwyntiau gweithredu i wella arfer.

Mae'r corff llywodraethol yn rhannu gweledigaeth yr ysgol ac mae'n gefnogol iawn o'r ysgol. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddo is-bwyllgorau priodol. Mae'n monitro perfformiad yr ysgol ond nid yw eto'n herio'r ysgol yn llawn ac yn ei dwyn i gyfrif am ei safonau a'i hansawdd.

Caiff perfformiad y staff ei fonitro'n rheolaidd, ac fe gaiff ei arfarnu trwy system rheoli perfformiad a gwerthuso gynhwysol a diogel. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu'n dda at gynllunio a gwella yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r gweithdrefnau rheoli perfformiad a gwerthuso yn dda i nodi anghenion hyfforddi a datblygu'r ysgol gyfan. O ganlyniad, gall yr ysgol fodloni anghenion unigol amrywiol a newidiol y disgyblion. Mae sawl aelod o staff yn hyfforddi cydweithwyr yn fewnol ac maent hefyd yn darparu hyfforddiant a chymorth allymestyn gwerthfawr ar gyfer ysgolion prif ffrwd.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i hymgorffori'n gadarn iawn yn yr ysgol. Mae pob un

o'r staff yn cyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at y broses. Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer gofyn safbwyntiau rhieni a gofalwyr ac ystod eang o randdeiliaid. Caiff y safbwyntiau hyn eu gwerthfawrogi'n fawr ac fe gânt eu hymgorffori'n dda iawn mewn adroddiad hunanarfarnu cynhwysfawr. O ganlyniad, caiff arweinwyr olwg onest a chywir iawn ar yr ysgol. Maent yn gosod targedau sy'n cynnwys her briodol ar gyfer gwella, sy'n arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau.

Mae gweithdrefnau sefydledig ar waith ar gyfer arsylwi rheolaidd mewn ystafelloedd dosbarth gan uwch reolwyr. Mae'r arsylwadau hyn yn darparu adborth ysgrifenedig gwerthfawr a chamau clir ar gyfer gwella i athrawon. Caiff systemau hynod effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad eu defnyddio mewn modd creadigol i nodi meysydd pellach i'w datblygu a hyfforddiant ar gyfer athrawon a staff eraill yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi cyflawni llawer mewn cyfnod byr, ers iddi agor, i ddatblygu'n gymuned ddysgu gref iawn. Caiff staff eu hannog yn barhaus i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol. Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae staff yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu harbenigedd ac maent yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau i wella eu heffeithiolrwydd.

Mae'r ysgol yn datblygu ac yn defnyddio ystod dda o ddata i fonitro cynnydd disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion dros gyfnod.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag ystod helaeth o bartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys rhieni, ysgolion cynradd prif ffrwd, yr ysgol uwchradd arbennig a swyddog cyswllt yr heddlu. Mae lefel uchel o ymddiriedaeth a chyfathrebu clir yn bodoli rhwng yr ysgol a'i phartneriaid. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r cysylltiadau da â'r gymuned leol.

Mae staff o'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i gefnogi athrawon i ddatblygu'r cwricwlwm mewn meysydd fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r iaith Gymraeg. Maent hefyd yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth gyda thechnoleg hygyrch er mwyn i'r disgyblion hyn allu cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae disgyblion mwy abl o Ysgol Pen Coch yn mynychu gwersi mewn ysgol gynradd ger eu cartref neu yn yr ysgol gynradd ar yr un safle, pan fo'n briodol. Caiff rhai disgyblion gyfle i gyfarfod a chymysgu'n gymdeithasol â phlant o'r ysgol gynradd brif ffrwd. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar eu lles ac ar y cynnydd a wnânt yn eu dysgu.

Mae'r gweithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau rhwng y staff a'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gweithio'n dda.

Defnyddiwyd cyllid Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig yn effeithiol i gynyddu'r hyfforddiant allymestyn i wella gallu ysgolion prif ffrwd i fodloni ystod ehangach o anghenion addysgol arbennig disgyblion.

Caiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am addysg eu plant ac fe gânt eu hysbysu'n dda am eu cynnydd.  Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan staff yr ysgol ac yn gwerthfawrogi'r fenter partneriaeth rhieni lwyddiannus.  Mae trefniadau pontio da iawn ar waith pan fydd disgyblion yn symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda iawn o athrawon profiadol, arbenigol a staff eraill sy'n cael eu defnyddio'n briodol i fodloni anghenion disgyblion unigol.

Caiff y staff amser priodol i gynllunio, paratoi ac asesu.  Mae hyn yn galluogi'r staff i fod yn gwbl effeithiol o ran sicrhau bod y disgyblion yn cael amrywiaeth eang o brofiadau personol a phrofiadau dysgu.  Defnyddir adnoddau o ansawdd uchel yn effeithiol iawn i weddu i ddiddordebau a galluoedd pob un o'r disgyblion.

Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn effeithlon ac effeithiol.  Yng ngoleuni'r safonau da a gyflawnir gan y disgyblion, yr addysgu effeithiol a'r rheolaeth ofalus dros yr adnoddau, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i holiaduron rhieni**

Llenwyd yr holiaduron gan ddau ddeg un o rieni, ac ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol ac yn teimlo ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Mae pob un ohonynt yn cytuno bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol, yn teimlo'n ddiogel yno ac wedi cael cymorth i ymgynefino ar y dechrau. Mae pob un o'r rhieni yn teimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da, bod yr addysgu'n dda a bod staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed. Mae pob un o'r rhieni yn cytuno bod yr ysgol yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb, bod yn iach, a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pob un o'r rhieni yn cytuno bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol er mai traean ohonynt yn unig sy'n cytuno'n gryf. Nid yw rhai rhieni yn teimlo bod yr ysgol yn eu hysbysu'n ddigon da am gynnydd eu plentyn.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhieni a ymatebodd yn gwybod a yw'r ysgol yn paratoi eu plant yn dda ar gyfer y cyfnod nesaf o addysg.

**Ymatebion i holiaduron dysgwyr**

Ymatebodd dau ddeg un o ddisgyblion – un deg tri bachgen ac wyth merch – i'r holiadur, ac at ei gilydd, maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u hysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn gwybod beth i'w wneud a phwy i ofyn os yw eu gwaith yn anodd, ac mae ganddynt ddigon o adnoddau i gefnogi eu dysgu. Mae pob un o'r disgyblion yn cytuno eu bod yn gwneud yn dda, yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio, ac yn cytuno bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach a bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall eu gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion a ymatebodd yn cytuno bod plant yn ymddwyn yn dda er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Michael Munting | Arolygydd Cofnodol |
| Claire Yardley | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees | Arolygydd Tîm |
| Carol Edwards | Arolygydd Lleyg |
| Justine Barlow | Arolygydd Cymheiriaid |
| Angelique Anderson | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad ar gael gan yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost yr ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cynnwys y grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |